

Diwylliant y Gymuned

Y Capel oedd wrth galon y gymuned chwarelyddol. Byddent yn mynychu'r capel yn ystod yr wythnos, nid dim ond ar ddydd Sul. Yn syfrdanol, roedd 29 o addoldai o fewn tair milltir i Fethesda, ysgrifennodd un sylwebydd yn 1904 mai Bethesda oedd 'pencadlys Anghydfurfiaeth Sir Gaernarfon; roedd ei chapeli'n anferth a'u gafael yn ddwys'. Nid oedd prinder diddordebau cymdeithasol a hamdden eraill yng nghymunedau'r chwarel, gan gynnwys corau, bandiau, clybiau pêl droed a biliards. A dweud y gwir, roedd y chwarelwyr yn adnabyddus am eu hoffter o weithgareddau addysgol a diwylliannol. Cynhaliwyd digwyddiadau diwylliannol yn ddyddiol yng nghaban y chwarel, y cantîn i bob pwrpas, gan gynnwys eisteddfodau a digwyddiadau addysgol.



Capeli Bethesda gan Cefyn Burgess

Er gwaetha'r capel a gwrthwynebiad ystâd y Penrhyn i yfed alcohol, nid oedd prinder tafarndai ar stryd fawr Bethesda, ac roedd digwyddiadau meddwol yn cyfrif am gyfran fawr o'r troseddau a gofnodwyd mewn cymunedau chwarelyddol.



Côr y Penrhyn. Mae trysorydd y Côr, sy'n sefyll ar y dde, yn gafael mewn bag sy'n llawn arian a gasglwyd ar gyfer y Streic Fawr.

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.